

Llŷr Williams: Nodiadau Lluniau mewn Cerddoriaeth 4
Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, 8 Hydref 2020

Vision Fugitives Op.22
Sergei Prokofiev (1891-1953)

- 1 Lentamente
- 3 Allegretto
- 5 Molto giocoso
- 7 Pittoresco (Arpa)
- 8 Commodo
- 9 Allegro tranquillo
- 10 Ridicolosamente
- 17 Poetico
- 20 Lento irrealmente

Fel myfyriwr yng Nghonservatory St Petersburg enillodd Prokofiev enwogrwydd fel *enfant terrible* a chanmoliaeth fel pianydd hynod ddawnus yr oedd ei arddull cyhyrog i'w weld yn nifer o'i gyfansoddiadau cynnar. Yn ystod ei absenoldeb estynedig o Rwsia wedi 1918 cafodd y cyfansoddwr yrfa ddisglair yn Ewrop ac America gan gael llwyddiant gyda'i *Gyfras Scythian*, *Symffoni Glasur* a'r *Trydydd Concerto Piano*. Ar ôl iddo ddychwelyd i'r Undeb Sofietaidd ym 1936 parhaodd ei lwyddiant am rai blynyddoedd gyda chyflawniadau nodedig ym maes bale (*Romeo and Juliet* a *Cinderella*) a'i *Bumed Symffoni* a gafodd ei chanmol ledled y byd. Pan ddaeth Prokofiev o dan ymosodiad gan yr awdurdodau ym 1948, dechreuodd sylweddoli pa mor fregus oedd y llwyddiannau hyn, gan eu bod wedi'u eu hadeiladu ar syniadau cyfnewidiol polisi Sofietaidd. Mewn ymateb i feirniadaeth gan gyfundrefn ormesol Stalin symleiddiodd Prokofiev ei arddull cerddorol er mwyn cydymffurfio â pholisi swyddogol y Blaid ond gyda dim ond ychydig bach o lwyddiant daeth yn wêr digalon a thoredig a bu farw bum mlynedd yn ddiweddarach, yn eironig ar yr un dydd â'r sawl a oedd yn ei erlid fwyaf, Josef Stalin.

Fodd bynnag, o gyfnod cynharach yn ei yrfa y daw'r ugain cyfansoddiad bach sy'n llunio *Vision Fugitives*; fe'u hysgrifennwyd rhwng 1915 a 1917 ac ni ddilynwyd y drefn gronolegol wrth eu rhoi ynghyd ar gyfer eu cyhoeddi. Wedi mynd y mae'r harmonïau garw, anghyngordiol a'r rhythmau ailadroddol rheolaidd ysgogol a geir yn ei *Gyfras Scythian*, gyda modd mwy cynnil yn eu lle, yn aml yn fewnsyllgar, a gwedd a oedd gynt yn anghyfarwydd o'i bersonoliaeth gerddorol a allai deimlo'n gwbl groes i'r cyfnod gwleidyddol ac economaidd cythryblus yr oedd Prokofiev yn byw ynddo. Mae hi bron fel petai'r cyfansoddwr heb ei effeithio o gwbl gan ddatblygiad y Rhyfel Mawr, gan geisio lloches mewn cerddoriaeth bur ymhell oddi wrth yr anawsterau economaidd anodd, anghydfod cymdeithasol cynyddol a dymchweliad y Tsar.

Mae'r teitl, *Visions Fugitives*, yn gyfieithiad barddonol o *Mimoletnosti* (sy'n golygu 'pethau'n hedfan heibio') a godwyd o waith y bardd symbolaidd o Rwsia, Konstantin Balmont, y gwnaeth ei linellau 'In every fleeting glimpse I see worlds; they change endlessly, Flashing in playful rainbow colours' ysgogi'r gwaith. Ymateb Prokofiev yw creu cyfres o ddelweddau atgofus sy'n rhychwantu amrywiaeth o hwyliau (ond myfyriol yn bennaf) sydd yn eu tro yn argraffiadol a thebyg i freuddwyd (2, 7 a 17), yn chwareus (3, 5 a 11), yn clownio (10), yn wrthun (4 a 9) yn ogystal â bygythiol (14), Scriabinaidd o dynner (18) a chryptig (13 a 16). Dim ond yn rhif 19 (*Presto agitatissimo e molto accento*) y mae Prokofiev yn cynnig ymateb cerddorol i chwyldro Chwefror 1917. Wrth sôn yn ddiweddarach am egni nerfus a ffrantig, rhythmau penderfynol a byrder y symudiad ymddiheurodd y cyfansoddwr fod y darn 'Yn fwy o fyfyrddod ar gynnwrf y dorf na theimlad mewnl o chwyldro'.

Gan anghofio am agendâu gwleidyddol, y cipluniau personol ac atmosfferig hyn, bron i ganrif wedi'r digwyddiadau oedd yn gysylltiedig â'u cyfansoddi, yw darnau piano mwyaf parhaol boblogaidd a hygyrch Prokofiev.

Y Tymhorau Op. 37a

Pyotr Ilyich Tchaikovsky (1840-93)

Ionawr: Ger y Tân

Chwefror: Carnifal

Mai: Nosweithiau Mis Mai

Mehefin: Barcarôl

Gorffennaf: Cân y Medelwr

Aawst: Y Cynhaeaf

Medi: Yr Helfa

Tachwedd: Troica

Os oes un cyfansoddwr o Rwsia yn crynhoi hanfod ei famwlad Pyotr Il'yich Tchaikovsky yw hwnnw na wnaeth, yn rhyfedd, sefydlu unrhyw ysgol o efelychwyr ac mae ei enw'n amlwg yn absennol o'r grŵp a arweiniwyd gan Balakirev sy'n gysylltiedig â'r mudiad cenedlgarol Rwsiaidd. Gwnaeth argraff barhaol ar gerddoriaeth ar gyfer y llwyfan a'r neuadd gyngerdd, ond mae ei gerddoriaeth ar gyfer y piano, a ysgrifennwyd yn aml mewn ymateb i'r galw gan y farchnad amatur, yn dangos ffafriaeth tuag at weithiau o feintiau cymedrol a'r rhain yw'r lleiaf adnabyddus o'i holl gynnyrch.

Un gwaith sydd wedi dod yn raddol fwyfwy poblogaidd yw ei gasgliad o ddarnau sy'n dwyn y teil camarweiniol *Y Tymhorau* - gwaith sy'n deillio o 1875 fel comisiwn gan olygydd cyfnodolyn misol St Petersburg *Nuvelist*. Yn gynnar y flwyddyn ganlynol, ymddangosodd y cyntaf o ddeuddeg darn, un ar gyfer pob mis, gydag is-deitlau a phenillion i gyd-fynd â phob un, a'r cyfanwaith yn cael ei gyhoeddi yn y pen draw fel set. Anfonwyd darnau Ionawr a Chwefror (a ysgrifennwyd yn niwed 1875) at olygydd y cyfnodolyn ar gyfer ei gymeradwyaeth, gyda Tchaikovsky yn addo eu diwygio os nad oeddent yn dderbyniol. Cyfansoddwyd y gerddoriaeth ar gyfer Mawrth, Ebrill a Mai ar wahân; ond oherwydd pwysau ymrwymadau eraill (yn cynnwys trefniant cerddorfaol i *Swan Lake*) cyfansoddwyd y misoedd oedd yn weddill gyda'i gilydd.

Er nad oedd gan Tchaikovsky fawr o ddiddordeb yn y gwaith, mae gan y casgliad lawer o swyn ac mae ei rifau unigol yn addas iawn ar gyfer pianydd amatur a fyddai, fel y cyfansoddwr ei hun, o bosibl yn meddu ar dechneg gymharol ond y gallai ei sensitifrwydd uniaethu gyda'r hwyliau sy'n

newid yn y gerddoriaeth. Wedi dweud hynny, mae yna heriau o fewn y gerddoriaeth. Boed yn ddarluniadwy neu'n bersonol, mae'r rhan fwyaf o'r darnau mewn ffurf ABA, pob un â chynildeb mynegiant sy'n codi'r gweithiau hyn uwchlaw lefel y salon.

Wedi cynhesrwydd clyd Ionawr, mae torfeydd prysur yn bywiogi Carnifal Chwefror ac ym Mawrth fe glywn drydar wylofus yr ehedydd. Daw Ebrill â'r eirlisiau a walts geinwch, tra bo Mai yn dwyn i gof noson hyfryd yn St Petersburg. Mae Barcarôl dyner Mehefin yn fframio darn canolog sy'n creu darluniau o gondolâu Fenis ac yn symud yn ddi-dor i drin gwair egniol Gorffennaf ac yna cynhaefu cyffrous Awst. Mae Medi'n cyrraedd gyda helpa gyffrous (sylwer ar alwadau gorfolaethus y cyrn) ac yn ildio i fyfrio barddonol Hydref. Mae'r car-llusg Rwsiaidd sy'n cael ei dynnu gan dri cheffyl, sef 'Troica', (Tachwedd) yn symudiad tinciog hyfryd (yr oedd Rachmaninov yn hoff iawn ohono) ac mae'n rhagfynegi llawenydd y Nadolig yn walts hyfryd Rhagfyr - yma mae Tchaikovsky ar ei fwyaf cyfareddol, yn coronni casgliad sydd erbyn hyn yn waith piano mwyaf adnabyddus y cyfansoddwr.

Darluniau mewn Arddangosfa

Modest Mussorgsky (1839-81)

- 1 'Gnomus'
- 2 'Il vecchio castello'
- 3 'Tuileries'
- 4 'Bydlo'
- 5 'Bale Cywion Ieir yn eu Plisgyn'
- 6 'Samuel Goldenburg a Schmuyle'
- 7 'Y Farchnad yn Limoges'
- 8 'Claddgelloedd'
- 9 'Y Cwt ar Goesau Iâr'
- 10 'Porth Mawr Kiev'

Am y rhan fwyaf o'i fywyd cafodd Modest Mussorgsky ei ystyried yn diletant, dablwr mewn cerddoriaeth na roddodd sylw cwbl ddifrifol i'r proffesiwn cyfansoddi. Yn wir, er gwaethaf llwyddiant *Boris Godunov* ym 1874 fe'i hystyriwyd gan nifer yn "glerc Llywodraeth aneffeithlon o feddwyn... a oedd hefyd yn digwydd bod yn athrylith". Yn yr un flwyddyn â'i lwyddiant operatig, ymwelodd ag arddangosfa goffa o luniau gan ei gyfaill, y pensaer a'r artist Victor Hartman, a fu farw flwyddyn ynghynt. Fel nifer o artistiaid â'r rhagflaenodd ac â'i olynodd, byrhoedlog oedd y diddordeb yn ei waith yn ôl pob sôn, a byddai erbyn hyn wedi mynd yn gwbl angof oni bai am y parhauster a roddwyd iddo gan Mussorgsky ac yn ddiweddarach gan Maurice Ravel a wnaeth drefniant cerddorfaol i'r gwaith ym 1922.

Mae'r gyfres yn agor gyda thema'r promenâd, mewn mesurau bob yn ail (amser 5/4 a 6/4), sy'n cyfleu gwylwr yn crwydro o amgylch yr oriel. Cynllun ar gyfer torrwr cnau yw'r llun cyntaf, 'Gnomus', mewn siâp corrach â choesau cam y gwnaeth Hartmann ei lunio ar gyfer Clwb Artistiaid St Petersburg ym 1869. Wedi'r olygfa fygythiol hon mae'r gwylwr yn symud ymlaen, drwy fersiwn dawelach o thema'r promenâd nes dod at hen gastell ('Il vecchio castello'). Mae alaw hiraethlon (y mae Ravel yn ei rhoi i un cor-anglais) dros gyfeiliant amser triphlyg melodaidd yn dwyn i gof ddyfrlliw Hartmann o drwbadŵr pruddglwyf yn canu o flaen hen gastell Eidalaid. Mae'r promenâd yn arwain at 'Tuileries', lle cyflëir yn fyr ac effeithiol blant cecrus yn gwneud ystumiau ar ei gilydd yng ngerddi enwog Paris. Mae'r gwylwr yn symud ymlaen, heb seibiant, i 'Bydlo', golygfa o gert ychen Pwylaidd trwmlwythog gydag olwynion enfawr yn cael ei yrru gan dyddynwr

yn canu hen gân werin. Mae tywyllu amlwg thema'r promenâd yn arwain at 'Fale Cywion leir yn eu Plisgyn' - sy'n seiliedig ar gynllun y lluniodd Hartmann ar gyfer bale Bolshoi ym 1871 - lle mae rhythmau aflonydd yn cyfleu cyffro stwrlllyd y cywion.

Mae'r portread nesaf yn darlunio dau Iddew o Bwyliaid, 'Samuel Goldenburg a Schmuyle'. Mae un yn gyfoethog ac iddo rhoddir thema bendant mewn unsain, a'r llall yn dlawd ac yn cael ei gyfleu gan rythmau nerfus, aflonydd sy'n cael eu lliwio gan drymped wedi'i fudo gan Ravel. Rydym yn dychwelyd i Ffrainc ar gyfer y 'Y Farchnad yn Limoges', lle mae menywod lleol yn clebran ac yn dadlau ar ddiwrnod marchnad prysur. Daw'r gerddoriaeth i anterth cyn bod y tensiynau yn hydoddi'n syth i awyrgylch lleddf a thenau claddgelloedd Paris. Yn y cyntaf o'r ddau bortread cyfrinol hyn mae cordiau anghyseiniol yn rhoi eu drama iasoer eu hunain tra bod yr ail yn cynrychioli Hartmann yn archwilio'r orielau tanddaearol yng ngolau crynedig ei lamp. Yn dilyn yr olygfa hon ceir 'Y Cwt ar Goesau Iâr', sy'n un o luniau mwyaf ffantasiol Hartmann yn dangos cloc ar goesau a'r hen wrach Baba-Yaga ar ei chwrcwd arno. Mae'r gerddoriaeth ymhlith y mwyaf treisgar yn y gyfres ac yn arwain yn ddi-dor i'r darlun terfynol: 'Porth Mawr Kiev'. Mae'r gerddoriaeth eang ac urddasol o ddisgleirdeb Slafonaidd yn cyfleu'n wych dyluniad Hartmann ar gyfer gathiau newydd i'r ddinas sy'n awgrymu iddynt gael eu creu ar raddfa fawreddog.

Nodiadau gan David Truslove, 2020

ROYAL WELSH COLLEGE
OF MUSIC & DRAMA
COLEG BRENHINOL
CERDD A DRAMA CYMRU